## Cynllun Cyflawni Corfforaethol 2023-24

### Adran 1 – Sut byddwn ni’n mesur ein 7 Amcan Llesiant

### Amcan Llesiant 1 – Bwrdeistref Sirol lle rydym yn amddiffyn ein pobl mwyaf agored i niwed

| Nod | Dangosyddion Perfformiad | Ymrwymiadau/prosiectau |
|---|---|---|
| 1.1 Darparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd da i blant ac oedolion a gwasanaethau cymorth cynnar i bobl sydd eu hangen | Gofalwyr<br>• Newydd - Canran y gofalwyr cymwys y cynigiwyd asesiad gofalwr iddynt (SSWB)<br><br>Gofal cymdeithasol plant<br>• Prydlondeb ymweliadau â<br>a) plant sydd â phrofiad o ofal<br>b) plant ar y gofrestr amddiffyn plant (SSWB)<br>• SSWB40 - Gostyngiad diogel yn nifer y plant sydd â phrofiad o ofal (SSWB)<br>• CH/026 - Gostyngiad diogel yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant (SSWB)<br><br>Gofal cymdeithasol oedolion<br>• Newydd – Canran yr ymholiadau i ddrws ffrynt Gofal Cymdeithasol Oedolion sy'n arwain at wybodaeth a chyngor yn unig<br>• AD/010 Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn (SSWB)<br>• SSWB38c Canran y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd a liniarodd yr angen am gymorth (SSWB)<br>• AD/033 - Nifer y bobl sy'n defnyddio eiriolaeth annibynnol i gefnogi eu hawliau (SSWB) | 1.1.1 Parhau i wella gwasanaethau cymorth cynnar drwy gynyddu nifer ymyriadau’r tîm o amgylch y teulu (TAF) sy’n dod i ben gyda chanlyniad cadarnhaol. (EFS)<br><br>1.1.2 Cynorthwyo cymunedau i ddod yn fwy gwydn, fel y bydd mwy o bobl yn dod o hyd i’r cymorth / y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen yn eu cymuned, gyda'r trydydd sector. (SSWB)<br><br>1.1.3 Cefnogi lles gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, a’u galluogi i gael bywyd y tu hwnt i ofalu. (SSWB)<br><br>1.1.4 Gwella Gwasanaethau Plant drwy gyflawni’r camau gweithredu yn ein cynllun strategol tair blynedd. (SSWB)<br><br>1.1.5 Gwella gofal cymdeithasol oedolion gyda chynllun strategol tair blynedd newydd i fynd i’r afael ag effeithiau iechyd corfforol a meddyliol Covid-19 ar bobl ag anghenion gofal a chymorth, a’n gweithlu. (SSWB)<br><br>1.1.6 Newid y ffordd y mae ein gweithwyr cymdeithasol yn gweithio i adeiladu ar gryfderau pobl ac adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed, y |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymorth cynnar<br>• DEFS29 Canran y cynlluniau Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) a gwblhawyd gyda chanlyniad llwyddiannus (EFS) | perthnasoedd sydd ganddynt a'u cynorthwyo i gyflawni eu potensial(SSWB).<br><br>1.1.7 Mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol megis gofal a chymorth yn y cartref, cartrefi gofal arbenigol i blant ac oedolion a recriwtio mwy o deuluoedd maeth. (SSWB) |
| 1.2 Cynorthwyo pobl mewn tlodi i gael y cymorth y mae arnynt ei angen / y cymorth y mae ganddynt hawl iddo | • Canran y bobl sy'n cael cymorth drwy FASS (Gwasanaeth Cymorth a Chefnogaeth Ariannol) lle mae cymorth wedi arwain at gynnydd mewn incwm drwy hawliadau am fudd-daliadau a lwfansau ychwanegol / uwch (CEX).<br>• Canran y bobl a gefnogir drwy FASS sydd wedi derbyn cyngor a chymorth i reoli neu leihau dyled y cartref (CEX) | 1.2.1 Cynorthwyo preswylwyr cymwys i dderbyn cymorth ariannol drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac i dalu eu biliau ynni drwy weinyddu Cynllun Cymorth Mesur Ynni Llywodraeth y DU. (CEX)<br>1.2.2 Codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i drigolion. (CEX) |
| 1.3 Cynorthwyo pobl sy'n wynebu digartrefedd i ddod o hyd i le i fyw | • PAM/012- Canran yr aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref (CEX)<br>• DOPS39 - Canran y bobl sy'n ymgyflwyno'n ddigartref neu a allai fod yn ddigartref y mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd gyfreithiol derfynol i sicrhau llety addas ar eu cyfer (CEX) | 1.3.1 Datblygu strategaeth ddigartrefedd newydd gyda phartneriaid i gyflawni prosiectau newydd er mwyn atal a lleihau digartrefedd (CEX) |
| 1.4 Cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gael y gorau allan o'u haddysg | • DEFS164 newydd - Canran yr ysgolion sydd â pholisi ADY yn ei le (EFS) | 1.4.1 Darparu hyfforddiant i 60 o staff o leiaf mewn ysgolion ar ddiwygio ADY a sut i gynorthwyo plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).(EFS) |

| | | |
|---|---|---|
| 1.5 Diogelu ac amddiffyn pobl sydd mewn perygl o niwed | • CORPB1 - Canran staff y Cyngor sy'n cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu (CEX/Pawb)<br>• AD/024 - Canran yr ymholiadau diogelu Oedolion sy'n derbyn ymateb cychwynnol o fewn 7 diwrnod gwaith (SSWB)<br>• CH/003 - Canran atgyfeiriadau plant lle gwneir penderfyniad o fewn 24 awr (SSWB)<br>• Newydd - Canran yr ymchwiliadau amddiffyn plant a gwblhawyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol (SSWB)<br>• Newydd - Amser disgwyl cyfartalog ar restr aros Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) (SSWB) | 1.5.1 Gweithio fel un Cyngor ar gynllun strategol i wella ein trefniadau diogelu (SSWB/Pawb)<br><br>1.5.2 Diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gamfanteisio. (SSWB) |
| 1.6 Cynorthwyo pobl i fyw'n ddiogel gartref drwy newidiadau i'w cartrefi | • Newydd – Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer:<br>  • cawodydd mynediad lefel isel<br>  • lifftiau grisiau<br>  • rampiau<br>  • estyniadau (CEX)<br>• DOPS41 - Canran y bobl sy'n teimlo y gallant fyw'n fwy annibynnol o ganlyniad i dderbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn eu cartref (CEX) | 1.6.1 Gwella'r broses a'r mynediad at grantiau ar gyfer pobl hŷn ac anabl sydd angen gwneud newidiadau i'w cartrefi (CEX) |
| 1.7 Cynorthwyo partneriaid i gadw cymunedau'n ddiogel | • Newydd - Canran staff y Cyngor sy'n cwblhau hyfforddiant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Lefel 1) (CEX/Pawb) | 1.7.1 Buddsoddi £750 mil o gyllid 'strydoedd mwy diogel' mewn teledu cylch cyfyng ychwanegol, gweithgareddau ieuenctid a dosbarthiadau hunanamddiffyn menywod (CEX) |

| | | |
|---|---|---|
| | • Newydd - Nifer yr achosion lle mae TCC yn cefnogi Heddlu De Cymru i fonitro digwyddiadau (CEX)<br>• Newydd - DEFS161 - Canran y plant sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa sy'n mynychu trefniant addysg, hyfforddiant a chyflogaeth addas (EFS) | 1.7.2 Nodi plant sy'n fwy tebygol o droseddu a rhoi cymorth iddynt leihau ymddygiad troseddol. (EFS) |

**Amcan Llesiant 2 - Bwrdeistref Sirol gyda gwaith teg, swyddi medrus o ansawdd da a threfi ffyniannus**

| **Nod** | **Dangosyddion Perfformiad** | **Ymrwymiadau/prosiectau** |
|---|---|---|
| 2.1 Cynorthwyo ein trigolion i gael y sgiliau y mae arnynt eu hangen ar gyfer gwaith | • DEFS82 - Nifer y cyfranogwyr yn rhaglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr sy'n mynd i mewn i gyflogaeth (COMM)<br>• DEFS84 – Nifer y cyfranogwyr tangyflogedig sy'n gadael Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr gyda gwell sefyllfa yn y farchnad lafur (COMM)<br>• Newydd (gosod gwaelodlin) - Nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaeth cyflogaeth yn ARC (SSWB) | 2.1.1 Buddsoddi £22 miliwn o Gyllid Rhannu Ffyniant mewn prosiectau yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2025, gyda phartneriaid trydydd sector, gan gynnwys mewn pobl a sgiliau, cefnogi busnesau lleol, a datblygu cymunedau a lle. (COMM)<br>2.1.2 Bydd Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda chyllidwyr a phartneriaid, gan gynnwys y Prosiect Ysbrydoli i Weithio, i gyflwyno rhaglen gyflogadwyedd a sgiliau gynhwysfawr (COMM).<br>2.1.3 Helpu pobl ag anghenion cymorth i oresgyn rhwystrau i waith a chael swyddi (SSWB) |
| 2.2 Sicrhau bod ein pobl ifanc yn dod o hyd i swyddi neu eu bod mewn addysg neu hyfforddiant | • DEFS80 - Nifer y cyfranogwyr yn rhaglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr a gynorthwyir i mewn i addysg neu hyfforddiant (COMM)<br>• PAM046 - Canran y rhai sy’n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) yn ystadegau cyrchfannau blynyddol Gyrfa Cymru (EFS) | 2.2.1 Cynyddu cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant yn y Fwrdeistref Sirol i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. (COMM)<br>2.2.2 Cyflogi a datblygu gweithlu gofal cymdeithasol cymwys, llawn cymhelliant, sy’n cael ei gefnogi'n dda yn y Cyngor a chyda phartneriaid. Llenwi swyddi gwag yn ein gwasanaethau gofal cymdeithasol a lleihau dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth. (SSWB)<br>2.2.3 Bydd Gwasanaeth Cerdd Pen-y-bont ar Ogwr yn datblygu cysylltiadau pellach â phrifysgolion a conservatoires i ddatblygu sgiliau cerddoriaeth mewn pobl ifanc sy'n arwain at swyddi (EFS) |
| 2.3 Gwella canol ein trefi gan eu gwneud yn fwy | | 2.3.1 Darparu £1.3 miliwn pellach o fuddsoddiad Trawsnewid Trefi ar draws canol ein trefi mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru dros y tair blynedd nesaf i wella cynaladwyedd economaidd canol ein trefi. (COMM) |

| | | |
|---|---|---|
| diogel a mwy deniadol | | 2.3.2 Rhoi blaenoriaeth i godi Pont Ffordd Penprysg newydd a thynnu'r groesfan reilffordd ym Mhencoed a cheisio cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer y prosiect hwn. (COMM)<br><br>2.3.3 Ailddatblygu Gorsaf Ganolog Pen-y-bont ar Ogwr gan gynnwys gwella'r rhan gyhoeddus o'i blaen gyda chyfnewidfa drafnidiaeth yn y cefn, yn darparu cysylltiadau rhwng gwasanaethau bysiau a threnau, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Network Rail. (COMM) |
| 2.4 Denu buddsoddiad a chynorthwyo busnesau newydd a rhai lleol sy'n bod eisoes | • Newydd - Nifer y busnesau sy'n cael cymorth drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (COMM)<br>• Newydd - Nifer y busnesau newydd a gafodd gymorth (COMM)<br>• Newydd - Nifer y busnesau lleol sy'n mynychu gweithdai caffael (CEX)<br>• Newydd - Gwariant lleol ar gaffael gwerth isel a chontractau o dan £100,000 CBSP (CEX) | 2.4.1 Buddsoddi mewn busnesau newydd yn y Fwrdeistref Sirol drwy ddarparu cymorth proffesiynol a chymorth grant, gan gefnogi sectorau twf allweddol fel ymchwil a datblygu, cyllid a'r economi werdd. (COMM)<br><br>2.4.2 Cynorthwyo busnesau lleol i dendro am waith sector cyhoeddus drwy ein prosiect Rheoli Cysylltiadau Cyflenwyr (SRM) a thudalen we caffael allanol, gan gynorthwyo busnesau lleol i ddod yn hyfyw yn dilyn Covid (CEX)<br><br>2.4.3 Gweithio gyda Dinas-ranbarth Caerdydd (CCR) a'i 10 awdurdod lleol i feddwl yn rhanbarthol ynghylch cynllunio, trafnidiaeth a datblygu economaidd (COMM) |
| 2.5 Gwneud y Cyngor yn lle deniadol i weithio | • Arolwg staff – Diwylliant<br><br>CED29 - Canran y staff a ddywedodd drwy arolwg eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad:<br><br>a) Rwyf yn teimlo bod pob adran yn gweithio tuag at yr un nod gyffredin<br><br>b) Rwyf yn fodlon ar CBS Pen-y-bont ar Ogwr fel cyflogwr<br><br>c) Mae gweithio yma yn gwneud i mi fod eisiau perfformio hyd eithaf fy ngallu | 2.5.1 Gwella diwylliant y Cyngor fel cyflogwr, gan gynnig cyfleoedd gwaith teg i weithwyr presennol a darpar weithwyr. Defnyddio barn ein gweithlu i wneud gwelliannau, datblygu ac ysgogi gweithwyr a gwella cadw staff. (CEX) |

| | | |
|---|---|---|
| | d) Teimlaf fod CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn gwerthfawrogi syniadau a barn ei weithwyr<br>e) Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu dwy ffordd i drafod a chodi syniadau a phroblemau? (CEX)<br>• Arolwg staff – Lles Gweithwyr<br>Newydd - Canran y staff sy’n adrodd drwy arolwg eu bod yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r datganiad:<br>a) Rwyf yn teimlo fy mod yn cael cefnogaeth i reoli fy lles personol tra yn y gwaith:<br>b) Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gymryd camau cadarnhaol i gynorthwyo gweithwyr i gael ymdeimlad cadarnhaol o les yn eu bywydau gwaith.(CEX)<br>• Newydd - Nifer y tanysgrifwyr newydd i allrwyd y staff (CEX) | |
| 2.6 Sicrhau bod cyflogaeth yn deg, cyfiawn ac yn talu’r cyflog byw gwirioneddol o leiaf | • Newydd - Nifer y cyflogwyr a nodwyd sy’n talu’r cyflog byw gwirioneddol (CEX) | 2.6.1 Annog ein cyflenwyr i ddod yn gyflogwyr cyflog byw gwirioneddol (CEX)<br>2.6.2 Annog cyflogwyr i gynnig dewisiadau twf/hyfforddiant i weithwyr (CEX) |

**Amcan Llesiant 3 - Bwrdeistref Sirol gyda chymunedau ffyniannus yn y cymoedd**

| Nod | Dangosyddion Perfformiad | Ymrwymiadau/prosiectau |
|---|---|---|
| 3.1 Buddsoddi yng nghanol trefi gan gynnwys canol tref Maesteg | • Newydd - Nifer yr eiddo masnachol a gafodd gymorth drwy'r Cynllun Grant Gwella (COMM) | 3.1.1 Cwblhau Strategaeth Creu Lleoedd ar gyfer canol tref Maesteg i wella'r amgylchedd a chefnogi ceisiadau buddsoddi yn y dyfodol. (COMM)<br><br>3.1.2 Datblygu grant gwella eiddo masnachol ar gyfer pob stryd fawr yn y cymoedd, i wneud iddynt edrych yn well ac adfer defnydd masnachol yr eiddo (COMM) |
| 3.2 Creu mwy o swyddi yn y Cymoedd | | 3.2.1 Datblygu ceisiadau am gyllid ar gyfer ein cymoedd, i wella'r economi ac ysgogi cyfleoedd gwaith newydd. (COMM)<br><br>3.2.2 Cynyddu faint o dir ac eiddo sydd ar gael i fusnesau, gan gynnwys unedau cychwyn diwydiannol, yn y Cymoedd. (COMM)<br><br>3.2.3 Darparu cyfleusterau newydd ar gyfer hyfforddiant â chymorth i bobl ag anableddau dysgu yn Wood B a B-Leaf ym Mryngarw (SSWB) |
| 3.3 Gwella cyfleusterau cymunedol a'u gwneud yn fwy hygyrch | • Newydd – Gwerth buddsoddiad gyda Throsglwyddo Asedau Cymunedol yn y Cymoedd (COMM)<br><br>• Newydd – Nifer o ymweliadau â chanolfannau i bob diben (SSWB) | 3.3.1 Cynnydd mewn Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn y cymoedd, gan gynnwys Caeau Chwarae Llangynwyd, er mwyn gwarchod yr asedau cymunedol gwerthfawr hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. (COMM)<br><br>3.3.2 Ailddatblygu safle Heol Ewenni, gan gynnwys cartrefi newydd a fforddiadwy, canolbwynt menter, lle agored a seilwaith gwyrdd, mewn partneriaeth â'r tirfeddiannwr cyfagos. (COMM)<br><br>3.3.3 Darparu gweithgareddau ychwanegol mewn canolfannau cymunedol yn y Cymoedd, gan gynnwys gweithgareddau digidol. (SSWB) |

| | | |
|---|---|---|
| | | 3.3.4 Cynyddu cyfranogiad mewn rhaglenni lles corfforol a meddyliol a gweithgareddau hamdden yn Neuadd y Dref Maesteg, Canolfan Bywyd Cwm Garw a Chwm Ogwr, Pwll Nofio Maesteg a Chanolfan Chwaraeon Maesteg (SSWB) |
| 3.4 Gwella addysg a sgiliau yn y cymoedd | | 3.4.1 Sefydlu tair darpariaeth Dechrau'n Deg newydd, sy'n cynnig gofal plant am ddim i blant dwy oed yn Nant-y-moel, Cwm Ogwr a Phont-y-cymer. (EFS)<br><br>3.4.2 Agor gofal plant cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Ogwr a Betws, gyda 32 o leoedd gofal plant cyfwerth ag amser llawn. (EFS) |
| 3.5 Buddsoddi yn ein parciau a'n lleoedd gwyrdd a chefnogi twristiaeth i'r cymoedd | | 3.5.1 Datblygu strategaeth adfywio ar gyfer y cymoedd (gan gynnwys Cymoedd Ogwr a Garw).(COMM)<br><br>3.5.2 Gweithio gyda Phrosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf i wella mynediad i fannau gwyrdd o safon uchel (COMM) |
| 3.6 Annog datblygu cartrefi fforddiadwy newydd yn y cymoedd | • Newydd – Nifer y cartrefi fforddiadwy a adeiladwyd yn y Cymoedd (CEX) | 3.6.1 Hyrwyddo ac annog datblygu tai cymdeithasol newydd yn y cymoedd. (CEX)<br><br>3.6.2 Annog datblygu cartrefi hunan-adeiladu ar leiniau mewnlenwi, er mwyn cynyddu'r ystod o dai sydd ar gael (COMM) |

**Amcan Llesiant 4 - Bwrdeistref Sirol lle rydym yn cynorthwyo pobl i gyrraedd eu potensial**

| Nod | Dangosyddion Perfformiad | Ymrwymiadau/prosiectau |
|---|---|---|
| 4.1 Darparu ysgolion cefnogol, diogel gydag addysg o safon uchel | • Newydd - DEFS156 – Nifer yr ysgolion y barnodd Estyn eu bod angen 'gwelliant sylweddol' neu 'fesurau arbennig' (EFS)<br><br>• PAM032 - Sgôr 'Capio 9' ar gyfartaledd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 (EFS)<br><br>• EDU016a/PAM007 Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (canran)<br>• EDU016b/PAM008 Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (canran) (EFS)<br><br>• EDU010a Canran y diwrnodau ysgol a gollwyd oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn ysgol mewn ysgolion cynradd<br>• EDU010b Canran y diwrnodau ysgol a gollwyd oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn ysgol mewn ysgolion uwchradd (EFS)<br><br>• DEFS155 Canran o ysgolion sydd wedi hunanwerthuso fel rhai 'gwyrdd' fel rhan o'u harchwiliad diogelu blynyddol (EFS) | 4.1.1 Cynorthwyo ysgolion i gyflawni eu cynlluniau gwella drwy ddadansoddi anghenion a chynnig hyfforddiant i fynd i'r afael â hyn, gan sicrhau mai barn Estyn am bob ysgol fydd 'nad oes angen unrhyw weithgarwch dilynol arni' (EFS)<br><br>4.1.2 Sicrhau bod pob ysgol leol yn cael ei graddio'n wyrdd yn dilyn ei harchwiliad diogelu a darparu'r cymorth y mae arnynt ei angen er mwyn gwella (EFS)<br><br>4.1.3 Sicrhau bod hyfforddiant dysgu digidol ychwanegol ar gael i holl staff yr ysgol er mwyn gwella addysgu a dysgu yn ein hysgolion (EFS)<br><br>4.1.4 Gwella'r cynnig digidol i bobl ifanc, gan gynnwys gwefan ryngweithiol dan arweiniad pobl ifanc (EFS) |
| 4.2 Gwella cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu | | 4.2.1 Rhoi'r cyfle i oedolion ifanc ag anableddau dysgu roi cynnig ar weithgareddau, ennill sgiliau newydd a chyflawni eu potensial gan weithio ar draws y Cyngor a phartneriaid (SSWB) |

| | | |
|---|---|---|
| 4.3 Ehangu cyfleoedd addysg gyfrwng Cymraeg | • DEFS138 Canran y disgyblion ym Mlwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg (EFS)<br>• Newydd - DEFS157 Canran y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (EFS)<br>• Newydd - DEFS158 nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith (EFS) | 4.3.1 Cyflawni'r camau gweithredu yn y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (EFS) |
| 4.4 Moderneiddio adeiladau ein hysgolion | | 4.4.1 Ehangu Ysgol Gymraeg Bryn Ogwr i 2.5 dosbarth mynediad mewn adeilad newydd oddi ar Ffordd Cadfan ym Mracla (EFS)<br><br>4.4.2 Darparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar safle iau Mynydd Cynffig (EFS)<br><br>4.4.3 Ehangu Ysgol y Ferch o'r Sgêr i dau ddosbarth mynediad mewn adeilad newydd ar safle'r ysgol bresennol (EFS)<br><br>4.4.4 Darparu ysgol gyfrwng Saesneg dau ddosbarth mynediad newydd yn Stad Marlas, Corneli, i gymryd lle Ysgolion Cynradd presennol Afon Y Felin a Chorneli. (EFS)<br><br>4.4.5 Adleoli Ysgol Heronsbridge i ysgol newydd â 300 o leoedd yn Fferm yr Ynys (EFS). |
| 4.5 Denu pobl ifanc i weithio yn CBSP a'u cadw | • DOPS36 - Nifer y prentisiaid sy'n cael eu cyflogi ar draws y sefydliad (CEX)<br>• Newydd - Canran y rhai sy'n cwblhau prentisiaethau ac yn cael rôl nad yw'n brentisiaeth (CEX) | 4.5.1 Gweithio gydag ysgolion lleol i hybu'r Cyngor fel cyflogwr a hyrwyddo prentisiaethau (CEX) |

| | | |
|---|---|---|
| 4.6 Cynnig gwasanaethau ieuenctid a rhaglenni gwyliau ysgol i'n pobl ifanc | • Newydd - Cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu targedu ar gyfer pobl ag anghenion ychwanegol neu amrywiol (SSWB)<br>• Newydd - Cymryd rhan yn y fenter nofio am ddim genedlaethol ar gyfer pobl ifanc 16 ac iau (SSWB)<br>• Newydd – Cymryd rhan mewn rhaglenni egnïol am oes a gwaith chwarae gwyliau (SSWB) | 4.6.1 Gwneud ein rhaglenni hamdden a diwylliant yn fwy hygyrch i blant ag anghenion ychwanegol (SSWB)<br>4.6.2 Ymestyn y rhaglen fwyd a hwyl yn Haf 2023 i 80 o ddisgyblion o leiaf (EFS) |
| 4.7 Gweithio gyda phobl i gynllunio a datblygu gwasanaethau | | 4.7.1 Cynorthwyo cymunedau i ddatblygu eu gwasanaethau eu hunain (SSWB)<br>4.7.2 Datblygu ein rhaglenni lles yn y dyfodol gyda'r bobl sy'n mynd i'w defnyddio (SSWB) |
| 4.8 Annog a chefnogi dysgu gydol oes | • Newydd - DEFS159 Canran y dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer dysgu cymunedol awdurdod lleol fesul 1,000 o oedolion yn y boblogaeth (EFS) | 4.8.1 Cynnal mwy o sesiynau y mae cymunedau wedi mynegi diddordeb ynddynt – darparu 20 yn rhagor o sesiynau hyfforddi personol (EFS) |
| 4.9 Bod y rhieni gorau allwn ni fod i blant sydd wedi bod mewn gofal | • SSWB48 Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau 3 mis yn olynol o leiaf o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn yr<br>a) 12 mis ers gadael gofal<br>b) 13- 24 mis ers gadael gofal (SSWB)<br>• CH/052 - Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn (SSWB) | 4.9.1 Rhoi cariad, gofal, cartrefi diogel i blant, sydd â phrofiad o ofal, i fyw ynddynt a chyfleoedd i roi cynnig ar weithgareddau newydd, meistroli sgiliau newydd a chyflawni eu potensial gan weithio ar draws y Cyngor a phartneriaid (SSWB)<br>4.9.2 Datblygu strategaeth Rhianta Corfforaethol gyda phlant, sydd â phrofiad o ofal, i egluro beth fydd gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud i'w helpu i gyflawni eu potensial a dathlu dod yn oedolion (SSWB). |

**Amcan Llesiant 5 - Bwrdeistref Sirol sy’n ymateb i argyfwng yr hinsawdd a natur**

| Nod | Dangosyddion Perfformiad | Ymrwymiadau/prosiectau |
|---|---|---|
| 5.1 Symud tuag at garbon sero net, a gwella ein heffeithlonrwydd ynni | • Newydd – Gostyngiad mewn allyriadau (COMM)<br>o Adeiladau<br>o Fflyd ac offer<br>o Goleuadau stryd<br>o Teithio busnes<br>o Cymudo<br>o Gweithio gartref<br>o Gwastraff<br>o Nwyddau a gwasanaethau wedi'u caffael<br><br>• DCO20.01 Defnydd Nwy Blynyddol ar draws yr Awdurdod (kWh) (COMM)<br>• DCO20.02 Defnydd Trydan Blynyddol ar draws yr Awdurdod (kWh) (COMM)<br>• DCO20.03 CO2 blynyddol yn ymwneud â'r defnydd o nwy ar draws yr Awdurdod (tunelli) (COMM)<br>• DCO20.04 CO2 blynyddol yn ymwneud â defnydd trydan ar draws yr Awdurdod (tunelli) (COMM)<br>• Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer (microgramau fesul m3) (CEX SRS) | 5.1.1 Parhau i leihau ein hôl troed carbon drwy newid cerbydau ein Cyngor am gerbydau trydan a chynlluniau effeithlonrwydd ynni pellach. (COMM)<br><br>5.1.2 Defnyddio’r adborth o'r ymgynghoriad i gytuno ar Gynllun Gweithredu Ansawdd Aer a dechrau gwaith ar y mesurau i wella ansawdd aer ar hyd Stryd y Parc. (CEX SRS)<br><br>5.1.3 Adeiladu pum ysgol garbon sero net newydd. (EFS)<br><br>5.1.4 Darparu mwy o wasanaethau gofal cymdeithasol rheng flaen gyda gweithwyr sy’n defnyddio cerbydau trydan y Cyngor. (SSWB)<br><br>5.1.5 Buddsoddi mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni i adeiladau'r Cyngor gan gynnwys ysgolion. (COMM) |
| 5.2 Amddiffyn ein tirwedd a’n mannau agored a phlannu mwy o goed | • Newydd - Nifer y parciau baner werdd (COMM)<br>• Newydd - Nifer y traethau baner las (COMM) | 5.2.1 Cyflawni prosiectau fel gwarchod coetiroedd, datblygu a diogelu ein hamgylchedd naturiol mewn partneriaeth â’n cymunedau fel rhan o Gynllun Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr. (COMM) |

| | | |
|---|---|---|
| | | 5.2.2 Gweithio gyda Phrosiect Rhwydwaith Natur Cwm Taf i gyfoethogi a gwella mynediad i fannau gwyrdd o ansawdd uchel yn ein Bwrdeistref Sirol. (COMM)<br><br>5.2.3 Plannu 10,000 yn fwy o goed y flwyddyn a darparu Cynllun Plannu Cymunedol i wyrddio ein Bwrdeistref Sirol. (COMM) |
| 5.3 Gwella ansawdd tir y cyhoedd a'r amgylchedd adeiledig drwy egwyddorion creu lle da | • PAM/018 Canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos (COMM)<br><br>• PAM/019 Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd (COMM) | 5.3.1 Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (COMM) |
| 5.4 Lleihau ein gwastraff gymaint ag sydd modd, ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu | • DCO20.05 – Canran y gwastraff glanhau strydoedd sy'n cael ei baratoi i'w ailgylchu (COMM)<br><br>• PAM/030 – Canran y gwastraff dinesig a gesglir gan awdurdodau lleol<br>o a baratowyd i'w ailddefnyddio, a/neu ei ailgylchu, gan gynnwys biowastraff a ddidolwyd yn y tarddle, sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn rhyw ffordd arall<br>o yn barod i'w hailddefnyddio<br>o yn barod i gael ei ailgylchu<br>o fel biowastraff wedi'i wahanu yn ei ffynhonnell, sy'n cael ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall (COMM)<br><br>• PAM/043 - Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person (COMM) | 5.4.1 Datblygu Model Gwasanaethau Gwastraff y Dyfodol, gan wella ein targedau ailgylchu ymhellach a throsi ein cerbydau. Byddwn yn ymgynghori ar y dewisiadau gyda thrigolion yn 2024 (COMM).<br><br>5.4.2 Sicrhau bod y Ganolfan Ailgylchu Gymunedol newydd yn y Pîl yn cael ei hagor. (COMM) |

| | | |
|---|---|---|
| | • PAM/010 – Canran o dir priffyrdd a archwiliwyd gan yr Awdurdod Lleol y canfuwyd ei fod o safon glendid uchel / derbyniol (COMM) | |
| 5.5 Gwella amddiffynfeydd llifogydd a chynlluniau i leihau llifogydd i mewn i dai a busnesau | • Newydd - Canran y ceisiadau systemau draenio cynaliadwy statudol (SDCau) a broseswyd o fewn 7 wythnos o dderbyn lluniadau cynllun priodol (COMM) | 5.5.1 Buddsoddi mewn mesurau lliniaru llifogydd a'u gwella yng nghymunedau ein cymoedd i leihau'r perygl o lifogydd. (COMM) |

**Amcan Llesiant 6 – Bwrdeistref Sirol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed ac yn rhan o'u cymuned**

| Nod | Dangosyddion Perfformiad | Ymrwymiadau/prosiectau |
|---|---|---|
| 6.1 Dathlu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant a mynd i'r afael â gwahaniaethu | • Newydd – Canran o staff y Cyngor sy'n cwblhau E-ddysgu Cyflwyniad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.(CEX/Pawb) | 6.1.1 Gorffen gwaith ar y cynllun cydraddoldeb strategol presennol a gweithio gyda chymunedau i ddatblygu un newydd, gan gefnogi LlC ar gydraddoldeb hiliol a chynlluniau gweithredu LGBTQ+ (CEX)<br><br>6.1.2 Sefydlu grwpiau staff newydd CBSP ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig (CEX) |
| 6.2 Gwella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl leol gan gynnwys pobl ifanc, gwrando ar eu safbwyntiau a gweithredu arnynt. | • Newydd - Ymgynghoriad cyhoeddus (cyllideb) - Canran y cyfranogwyr a atebodd yn gadarnhaol: Pa mor effeithiol ydych chi'n meddwl yr ydym wedi bod o ran cyflawni ein nod o ganolbwyntio ar ddinasyddion dros y 12 mis diwethaf? (CEX)<br><br>• Newydd - Lefel ymgysylltu (Cymraeg / Saesneg)<br><br>a) ar draws ymgynghoriadau<br>b) gyda chyfathrebu corfforaethol i drigolion<br>c) ar draws holl gyfrifon y cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (CEX) | 6.2.1 Adolygu sut rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â thrigolion, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i'n helpu i ganolbwyntio mwy ar y cwsmer a bod yn fwy ymatebol(CEX)<br><br>6.2.2 Darparu cyfleoedd newydd i'r gymuned ymgysylltu â ni ar ein cynlluniau adfywio, gan gynnal gweithdai gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cynghorau tref, dysgwyr a grwpiau cymunedol. (COMM)<br><br>6.2.3 Datblygu Cynulliad Dinasyddion Hinsawdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i alluogi cymunedau i lunio ein Hagenda Di-Garbon Net 2030. (COMM) |
| 6.3 Cynnig mwy o wybodaeth a chyngor ar-lein, ac ar lefel leol, a gwneud yn siŵr y gellwch siarad â ni a chlywed oddi wrthym yn Gymraeg. | • CED5 - Canran yr atebion i alwadau cyntaf (drwy'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid) (CEX)<br>• Newydd - Nifer y trafodion ar-lein a wnaed gan ddefnyddio'r platfform digidol (CEX)<br>• Newydd - Nifer y trawiadau ar y wefan gorfforaethol (CEX)<br>• Newydd - Canran y staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg (CEX) | 6.3.1 Datblygu mwy o ganolbwyntiau cymunedol mewn llyfrgelloedd ac yn adeiladau eraill y Cyngor fel y gall trigolion gael mwy o wybodaeth a chymorth heb deithio i'r Swyddfeydd Dinesig (CEX) |

| | | |
|---|---|---|
| | • Newydd - Canran staff y Cyngor sy'n cwblhau E-Ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith.(CEX/Pawb) | |
| 6.4 Cynorthwyo clybiau a grwpiau cymunedol i gymryd rheolaeth dros eu cyfleusterau a’u gwella a’u hamddiffyn ar gyfer y dyfodol. | • DCO16.8 - Nifer yr asedau sy'n eiddo i'r Cyngor a drosglwyddwyd i'r gymuned i'w rhedeg (CATs) (COMM)<br>• Newydd - Gwerth buddsoddiad gyda CATs (COMM)<br>• Newydd - Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth i gael atebion i’w hanghenion yn eu cymunedau gan gydlynwyr ac arweinwyr cymunedol lleol (SSWB) | 6.4.1 Buddsoddi £400 mil pellach mewn Trosglwyddo Asedau Cymunedol a chefnogi clybiau a Grwpiau Cymunedol gyda grantiau ar gyfer offer i wella a diogelu'r cyfleusterau. (COMM)<br>6.4.2 Datblygu ymagwedd fwy cydlynol gyda phartneriaid i helpu pobl i ddod o hyd i weithgareddau a grwpiau yn eu cymunedau. (SSWB) |
| 6.5 Dod yn Gyngor cyfeillgar i oed. | | 6.5.1 Gwneud Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn lle gwych i heneiddio ynddo, gan weithio gyda phartneriaid i wella gweithgareddau hamdden, tai hygyrch, gofal, a chymorth, fel Cyngor sy’n Gyfeillgar i Oed. (SSWB) |

**Amcan Llesiant 7 - Bwrdeistref Sirol lle rydym yn cynorthwyo pobl i fod yn iach ac yn hapus**

| Nod | Dangosyddion Perfformiad | Ymrwymiadau/prosiectau |
|---|---|---|
| 7.1 Gwella llwybrau teithio llesol a chyfleusterau fel y gall pobl gerdded a beicio | • Newydd - llwybrau teithio llesol (hyd mewn cilomedrau) (COMM) | 7.1.1 Gwella dewisiadau teithio cynaliadwy a llesol, gan gynnwys y cyfleuster bws metrolink ym Mhorthcawl, i gynyddu cysylltedd a dewisiadau teithio mwy gwyrdd (COMM) |
| 7.2 Cynnig gweithgareddau hamdden a diwylliannol deniadol | • Newydd – Nifer o ymweliadau y cynorthwywyd oedolion hŷn i'w gwneud i gyfleoedd gweithgareddau corfforol (SSWB)<br>• Newydd – Nifer yr unigolion sy'n dechrau rhaglenni ac yn cwblhau 16 wythnos o weithgaredd (SSWB)<br>• Newydd – Canran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn tri neu ragor o weithgareddau yr wythnos (Dangosydd FG 38 data Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru) (SSWB)<br>• Newydd – Cymryd rhan yn her ddarllen yr haf mewn llyfrgelloedd (SSWB)<br>• Newydd – Cymryd rhan mewn gweithgareddau plant mewn llyfrgelloedd (SSWB) | 7.2.1 Ailddatblygu Pafiliwn Mawr Porthcawl i gynyddu'r defnydd o'r cyfleusterau newydd ac ymestyn cyfleusterau cymdeithasol a hamdden, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.(COMM)<br>7.2.2 Datblygu cynnig hamdden gweithredol i oedolion hŷn i wella lles corfforol a meddyliol. (SSWB)<br>7.2.3 Cynyddu'r defnydd o'r rhaglen atgyfeirio ar gyfer ymarfer corff gan bobl a all fod wedi ei chael hi'n anodd cymryd rhan yn y gorffennol. (SSWB)<br>7.2.4 Cwblhau'r gwaith o adnewyddu Llyfrgell Pencoed a buddsoddi mewn gwasanaethau llyfrgell. (SSWB)<br>7.2.5 Datblygu cynllun Pen-y-bont Weithredol hirdymor a strategaeth hamdden. (SSWB) |
| 7.3 Gwella cyfleusterau chwarae a chyfleoedd i blant | • Newydd – Gwerth buddsoddi mewn lleoedd chwarae (COMM)<br>• Newydd – nifer y lleoedd chwarae sydd wedi cael eu hailwampio (COMM) | 7.3.1 Gwella nifer ac ansawdd cyfleoedd chwarae. Byddwn yn buddsoddi ym mhob lle chwarae plant a sicrhau bod offer chwarae cynhwysol yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau cyfleoedd i bawb. (SSWB/COMM)<br>7.3.2 Datblygu'r Prosiect Mentro Archwilio yn 1 ysgol arall o leiaf. (EFS) |

| | | |
|---|---|---|
| | | 7.3.3 Byddwn yn cynyddu amrywiaeth y grwpiau cerdd ar ôl yr Ysgol a gweithgareddau i sicrhau bod rhagor o blant yn elwa o'r ddarpariaeth hon. (EFS) |
| 7.4 Darparu prydau ysgol am ddim ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant am ddim | • Newydd DEFS163 - Canran y dysgwyr yn y feithrinfa, y dosbarth derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 sy'n cael cynnig pryd ysgol am ddim (EFS)<br>• NEWYDD DEFS162 - Canran y lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal ond sy'n cael eu hystyried gan Arolygiaeth Gofal Cymru fel o leiaf yn 'dda' (EFS)<br>• DEFS160 Nifer y plant dwy oed sy'n cael mynediad at ofal plant drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg (EFS) | 7.4.1 Darparu prydau ysgol am ddim i'r holl ddysgwyr yn yr ysgol gynradd erbyn mis Medi 2024. (EFS)<br>7.4.2 Gweithio gyda gofalwyr plant, meithrinfeydd ac eraill i ddatblygu gofal plant cyffredinol i bob plentyn dwy oed.(EFS) |
| 7.5 Integreiddio ein gwasanaethau gofal cymdeithasol gyda'r gwasanaethau iechyd er mwyn i bobl gael cymorth di-dor. | • Newydd – Nifer y bobl y mae trosglwyddo'u gofal yn cael ei ohirio ar y llwybrau 'rhyddhau i adfer ac asesu' (SSWB) | 7.5.1 Gweithio'n agosach fyth gyda'r GIG fel bod pawb yn derbyn y gwasanaeth iechyd neu ofal iawn ar yr amser iawn. (SSWB) |
| 7.6 Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy | • Newydd – Nifer yr anheddau newydd fforddiadwy a adeiladwyd a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (CEX)<br>• Newydd – Cyfanswm y cartrefi gwag a adferwyd i'w defnyddio gyda chymorth yr awdurdod lleol (CEX) | 7.6.1 Cynyddu nifer y tai fforddiadwy ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol. (CEX)<br>7.6.2 Cael gwell dealltwriaeth o anghenion tai a chymorth a gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i ddarparu cartrefi addas ar gyfer yr anghenion hynny. (CEX)<br>7.6.3 Gwella'r ffordd yr ydym yn delio â chartrefi gwag. (CEX) |

## Adran 2 – Dangos ein 5 Ffordd o Weithio (FfoW)

| FfoW | Dangosyddion Perfformiad | Ymrwymiadau/prosiectau |
|---|---|---|
| 1) Defnydd gwell gyda thargedau o'r adnoddau | Data'r gweithlu<br>• Canran y staff sydd wedi cwblhau Adolygiad/Arfarniad Personol (ac eithrio staff ysgol)<br>• Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith fesul gweithiwr Awdurdod Lleol cyfwerth â llawn amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch<br>Data Rheoli Asedau (derbyniadau cyfalaf, cydymffurfiaeth adeiladu, Carbon ac yn y blaen)<br>• DCO16.9 Gwireddu targedau derbyniadau cyfalaf blynyddol (COMM)<br>• Canran newydd y cydymffurfiad statudol ar draws adeiladau gweithredol BCBC (y 5 mawr) (Comm)<br>Parhad / Gwytnwch Busnes<br>• DOPS34abc Argaeledd rhwydwaith (CEX)<br>Caffael<br>• Safonau newid hinsawdd, gwerth cymdeithasol, yr economi gylchol<br>Mesurau cyllid<br>• CORP6.1.1 Cyflawni gostyngiadau yn y gyllideb | Datblygu camau clir a chytûn i fynd i'r afael ag argymhellion gan reoleiddwyr, yn cynnwys<br>• Strategaeth gweithlu (a recriwtio gwasanaethau cymdeithasol penodol)<br>• Gwelliannau mewn rheoli asedau<br>• Adolygiad caffael gan Archwilio Cymru<br>• Cynllun gwella rheoli perfformiad<br>• Strategaeth ddigidol<br>• MTFS / Strategaeth Gyfalaf |
| 2) Un Cyngor yn gweithio'n dda gyda phartneriaid | | • Dull cydweithredol o gyflawni nodau, sefydlu BGC rhanbarthol, Cynghorau Tref a Chymuned, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Rhianta Corfforaethol, Awen a Halo, y trydydd sector<br>• Adolygiad Cynghorau Tref a Chymuned |

| | | |
|---|---|---|
| 3) Gwella cyfathrebu, ymgysylltu ac ymatebolrwydd | • Ymateb i ymgynghoriadau<br>• Defnyddio paneli dinasyddion<br>• Defnyddio sianelau gwahanol<br>• Mesurau gwasanaeth cwsmeriaid (yn cynnwys datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf)<br>• Mesurau boddhad ymwelwyr | • Adolygiad cymheiriaid o gyfathrebu - gan gynnwys y berthynas rhwng swyddogion ac aelodau<br>• Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd<br>• Rhoi gwahanol ffyrdd i bobl ymgysylltu â gwasanaethau'r Cyngor a gwybodaeth (hunanwasanaeth a hunangymorth)<br>• Strategaeth gofal cwsmeriaid - Datblygu ystod o safonau gwasanaeth CBS Pen-y-bont ar Ogwr i fesur y pethau sy'n bwysig i'r cyhoedd<br>• Gwella'r ffordd yr ydym yn ymateb i'n haelodau etholedig<br>• Gwella ein dull o fesur boddhad cwsmeriaid<br>• Hyrwyddo'r Gymraeg |
| 4) Cefnogi a grymuso cymunedau | • Newydd - Nifer y bobl sy'n cael cymorth i gael ateb eu hanghenion yn eu cymunedau gan gydlynwyr cymunedol lleol ac arweinwyr cymunedol (SSWB) (gweler *nod 6.3*)<br><br>Caffael lleol *(gweler nod 2.4)*<br>• Newydd - Nifer o fusnesau lleol yn mynychu gweithdai caffael (Blynyddol) (CEX)<br>• Newydd – Gwariant lleol ar gaffael a chontractau gwerth isel CBS Penybont ar Ogwr dan £100,000) (CEX) | • Cynorthwyo cymunedau i ddatblygu eu gwasanaethau eu hunain drwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys gofalwyr<br>• Drwy'r Tîm Cyflogadwyedd helpu ein trigolion i gael y sgiliau y mae arnynt eu hangen ar gyfer gwaith - Cyflogadwyedd<br>• Helpu cymunedau i ddod yn fwy gwydn, fel y bydd mwy o bobl yn dod o hyd i'r cymorth a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen yn eu cymuned, gyda'r 3ydd sector.<br>• Cefnogi'r economi leol drwy helpu busnesau lleol i dendro am waith sector cyhoeddus drwy ein prosiect SRM a thudalen we caffael allanol, |
| 5) Amddiffyn y gwasanaethau | • Y gyllideb ac arolwg staff – dangosyddion perfformiad<br>• Ymgyngoriadau ysgol | • Annog pobl, cymunedau, plant a phobl ifanc i siarad â'r Cyngor am faterion sy'n bwysig iddynt, |

| | | |
|---|---|---|
| sy’n cyfrif fwyaf i chi | | a dylanwadu ar y penderfyniadau sy’n effeithio ar eu bywydau |